# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR IONAWR 9fed, 2024

## Yn NEUADD BENTREF FFOSTRASOL am 7.30 y.h.

**Yn bresennol** Cyng. Ceri Jones (cadeirydd), Cyng. Sian Williams, Cyng. Carol Davies, Cyng. Mark Davies, Cyng Sharon Thomas, Cyng Roger Davies

Clerc Rhian Jones

Dymunodd y Cadeirydd Flwyddyn Newydd Dda i bawb.

**1 . Ymddiheuriadau**

- Cyng Maldwyn Lewis, Cyng Rob Jones, Cyng Teifi Evans, Cyng Emyr Jones a'r Cyng Llyr Evans.

**2. Datgan Diddordeb**

- **2.1 -** Cyng Ceri Jones – cynllunio yn Gwernant.

**3. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

- **3.1** - Cadarnhaodd y Cyng. Sian Williams fod y cofnodion yn gywir ac eiliwyd gan y Cyng.Mark Davies.

**4. Materion yn Codi**

- **4.1 –** Signatories i'r Banc – yn y broses ar hyn o bryd
- **4.2** – Y Clerc wedi anfon llythyr at Glwb Pel droed Ffostrasol yn holi am y fainc.
- **4.3 –** Diolchwyd i bawb a fu'n gyfrifol am dynnu'r coed Nadolig i lawr. Nodwyd fod y coed wedi edrych yn llawer gwell eleni gyda mwy o oleadau.
- **4.4 –** Mae'r Clerc wedi anfon llythyr ar Sue Davies, Nantgwylan gyda'r diweddaraf am y blwch halen.
- **4.5** – Mae'r Clerc wedi cysylltu gyda Gary Morgan am bris hysbysfwrdd newydd i Ffostrasol.

**5. Cwrs De-fib/Cymorth Cyntaf**

- **5.1** – Mae'r Cyng.Sian Williams yn mynd i gysylltu gyda Pauline i drefnu dyddiad addas ym mis Mawrth. Rhywbeth i drafod mis nesaf.

**6. Materion y Cynghorydd Sir** Ddim yn bresennol

**7. Gohebiaeth**

- **7.1 -** Un Llais Cymru – mae tim newydd ganddynt ac wedi anfon ffurflen arolwg costau byw.

- **7.2 –** Mae 'Beiciau Gwaed Cymru' wedi holi am gefnogaeth ariannol – cysylltu gyda Graham Jones o Gaerwedros. Mae'r gwasanaeth maent yn gynnig yn hollol wirfoddol ac yn cael ei ariannu gan elusennau. Mae angen cysyllyu a hwy i ofyn iddynt lenwi'r ffurflen sydd ar ein gwefan.
- **7.3** – Gwybodaeth am y newidiadau i gasglu sbwriel dros y Nadolig.
- **7.4** – Poster am Talwrn y Beirdd oedd yn cael ei gynnal yn festri Bryngwenith ar Ionawr 9fed.
- **7.5** – Mae gan y Sir bolisi bagiau tywod ar gyfer llifogydd.
- **7.6** – Cyfleoedd cerdded Cerdigion – map ar gael yn dangos y llwybrau cerdded, beicio a merlota.
- **7.7** – Derryck Evans am yr Awdit. Nid yw wedi derbyn y ffurflenni ers 2017, oni bai am un llynedd. Er iddo nodi nad oeddem yn medru ei anfon i mewn y blynyddoedd cynt. Angen cysylltu gyda Gwyn Jones yn holi iddo gysylltu gyda Derryck i drafod.
- **7.8** -Gavin Jones o Openreach. Mae talebau ar gael ar gyfer cael Band – eang i Rhydlewis. Mae angen i ddigon o drigolion y pentref ddangos diddordeb. Bydd y Cyng.Sian Williams yn rhoi linc ar ein tudalen Facebook.

**8. Cynllunio**

- **8.1** – Gwernant – Mae sylwadau eisioes gan yr adran ffyrdd a Dwr Cymru. Ond iddynt gadw at y gofynion a chadw yr adeilad fel y mae o ran maint, nid oes gwrthwynebiad.Rhaid cadw at y canllawiau.
- **8.2** – Brynglas, Rhydlewis – sied i ddal peiriannau. Dim gwrthwynebiad.

**9. Arwydd T Llew Jones**

- **9.1 –** Angen i'r Clerc gysylltu gyda Sion Ilar o Gyngor Llyfrau Cymru i gael yr hawlfraint o ddefnyddio'r wybodaeth, yna cysylltu gyda Boomerang i drafod creu yr arwydd newydd.

**10. Mainc i'r Ardal**

- **10.1 –**Wedi trafod eisioes ei lleoli yn Bwlchygroes, ar y borfa ger y Capel. Mae angen gwybodaeth bellach wrth y Cyng Maldwyn Lewis am y meinciau. Hefyd trafodwyd efallai y byddai yn syniad lleoli un ym Mrongest ger yr Eglwys, os oes dwy ar gael i ni fel Cyngor Cymuned.

**11. Cloud/Hard drive**

- **11.1** - Cytunodd pawb fod angen adnewyddu ein system o gadw gwybodaeth a byddai yn syniad cael subscription newydd.

**12. Cyfraniadau**

- **12.1** – Sioe Amaethyddol Dyffryn Teifi yw'r unig un sydd wedi llenwi'r ffurflen briodol.
- **12.2** – Am agor y ceisiadau am fis eto gan fod rhai wedi holi ond heb lenwi'r ffurflen briodol yn nodi maint y cyfraniad ac i pa ddefnydd. Y Cyng. Sian Williams yn mynd i roi poster a linc i'r ffurflen ar ein tudalen facebook.

**13. Cyrsiau**

- **13.1** –Modiwl 1, ar lein a 3 dyddiad ar gael. Un yn Ionawr, un yn Cherfror ac un ym mis Mawrth. Bydd y Clerc yn trefnu fod y Cynghorwyr sy'n dymuno yn cael mynd ar y cyrsiau hyn.
- **13.2** – Tasg arall i'r Clerc fydd creu cynllun yn nodi pa gyrsiau mae Cynghorwyr wedi mynychu.

**14. Cyllid**

Cytunodd pawb oedd yn brresennol i dalu'r sieciau ac arwyddwyd hwy gan y Cyng.Sharon Thomas a'r Cyng.Roger Davies.

| | | |
|---|---|---|
| The Solar Factory ( Ceri Jones ) | £451.91 | 001737 |
| HMRC | £64.60 | 001736 |
| Cyflog y Clerc | £257.98 | 001738 |

Mae angen i'r Clerc anfon at Ashmole yn nodi fod Un Llais Cymru wedi caniatau i ad-dalu y codiad cyflog ers mis Ebrill.

**15. Materion Ardal**

- **15.1 – Coedybryn –** Diolch i Sian a'r teulu am dynnu'r goeden i lawr.
- **15.2 – Coedybryn -** Byddai Lynn Davies, Eirianfa yn dathlu ei benbwydd yn 100 oed ar Ionawr 16eg, ond yn anffodus bu farw dros gyfnod y Nadolig, a bydd yn cael ei gladdu ar ddyddiad ei benblwydd. Cydymdeimlad i'w deulu.
- **15.3 – Coedybryn –** mae dwr yn dod allan i'r ffordd ger plot y Cyng Sian Williams a gyda'r tywydd yn oeri gallai fod yn broblem pan yn rhewi. Mae angen edrych ar y dreaniad.
- **15.4 – Ffostrasol –** Braf oedd clywed fod 19 o blant y pentref wedi bod allan yn cadw'r hen draddodiad Cymreig yn fyw o gasglu Calennig. Cafodd pob un ohonynt groeso arbennig gan bobl y gymuned a braf byddai annog parhad y traddodiad yn y pentrefi arall yn y dyfodol. ( Efallai byddai'n syniad hyfryd hefyd i gael y cymunedau at ei gilydd i ganu carolau.)
- **15.5 – Ffostrasol –** Mae'r bollard concrid oedd yn sigledig ger y goeden Nadolig wedi cael ei symud bellach, ond mae'r con yn dal ar y palmant rhwng Ffostrasol a Bwlchygroes.
- **15.6 – Brongest –** mae nifer o'r ffyrdd o gwmpas Brongest yn wael ofnadwy ac angen cael eu adnewyddu.
- **15.7 –** Mae nifer o arwyddion y pentrefi wedi diflannu – yn enwedig un heol lle mae arwydd Coedybryn, Maesllyn a Croeslan wedi diflannu. Cysylltu gyda CLIC i holi a oes modd cael arwyddion newydd.

**16. Cyfarfod nesaf.**

Bydd y cyfarfod nesaf yng Nghoedybryn ar y 6ed o Chwerfror am 7:30yh.
Gan nad oedd dim ymhellach i drafod, tynnodd y Cadeirydd y cyfarfod i ben am 9:35yh
Cadarnhawyd fod y cofnodion yma yn gywir.

Llofnod Dyddiad

______________________________ ____________________